# Ysgol Maes Archaeoleg Ystrad Fflur 2026
# Goruchwyliwr Safle (preswyl)

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Goruchwyliwr Safle (preswyl) |
| **Hyd:** | Dydd Sul 14 Mehefin i ddydd Llun 15 Gorffennaf 2026 (gyda'r opsiwn o fod yn rhan o dripiau dydd Sul lle bo angen) |
| **Wythnos Waith:** | Dydd Mawrth i ddydd Sadwrn (a chyflwyniad nos Lun) |
| **Yn gyfrifol i:** | Dawn Haida (arweinydd y safle gwersylla), Quentin Drew (Cyfarwyddwr Cloddio) a Carys Aldous-Hughes (Cyfarwyddwr YYF) |
| **Yn gyfrifol am:** | Mynychwyr |
| **Cyflog:** | £125 y dydd, bwyd a llety wedi'u cynnwys (Hunangyflogedig) |

**Disgrifiad o'r Rôl:**

Bydd gofyn i'r Goruchwyliwr Safle hyfforddi mynychwyr yn y gwaith cloddio a chofnodi nodweddion i'r safon ofynnol, gan gefnogi Cyfarwyddwr y Cloddio a Chyfarwyddwr y Safle i gyflawni'r gwaith cloddio'n esmwyth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aros yn y neuadd breswyl ac yn cefnogi mynychwyr yn Neuadd Pantyfedwen.

Bydd Goruchwyliwr y Safle yn gyfrifol am:

- Cefnogi cynnal y safleoedd cloddio a’r llety yn effeithlon ac yn ddiogel.
- Hyfforddi a goruchwylio cyfranogwyr mewn cloddio ac arolygu, gan ddilyn cyfarwyddyd cyfarwyddwr y cloddio.
- Mentora ac ysgogi cyfranogwyr, eu hannog i ddatblygu sgiliau, a bod wrth law i esbonio ac arddangos technegau.
- Cefnogi cyfarwyddwr y cloddio i sicrhau bod arferion archaeolegol a chofnodi cywir yn cael eu cynnal.
- Cynnal awyrgylch cefnogol a chynhwysol yn y safle'r cloddio a'r llety.
- Gweithio gyda chloddwyr dydd a hefyd y gymuned ehangach, gan gefnogi cyfarwyddwr y cloddio a chyfarwyddwr YYF i gynnal diwrnodau agored ac ymweliadau er enghraifft.
- Cadw'r ddarpariaeth llety yn Neuadd Pantyfedwen yn rhedeg yn esmwyth, trwy gynorthwyo gydag amseroedd prydau bwyd, gwirio cyflenwadau mewn toiledau a chawodydd, helpu gyda theithiau cerdded a sgyrsiau gyda'r nos, ymhlith gweithgareddau eraill.
- Bod wrth law i gefnogi cyfranogwyr, o helpu gyda gwersylla ac anghenion cyflenwadau i'w cyfeirio at gymorthwyr cyntaf iechyd meddwl a bod o gwmpas am sgwrs.

**Hanfodol:**

- Profiad o weithio fel archaeolegydd maes ar brosiectau lluosog.
- Agwedd bositif a chynhwysol, ac ymroddiad i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel i gyfranogwyr.

**Dymunol:**

- Gradd mewn archaeoleg neu gymhwyster tebyg
- Cyfarwydd â Phasbort Sgiliau Archaeoleg y DU
- Profiad o weithio gyda hyfforddeion a grwpiau cymunedol
- Hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf
- Trwydded yrru'r DU

STRATA FLORIDA
YSTRAD FFLUR

**Er gwybodaeth:**

- Bydd bwyd a llety wedi'u cynnwys. Mae'r llety ar sail gwersylla a bydd angen i chi ddod â'ch pabell/carafan a'ch dillad gwely eich hun. Am ragor o wybodaeth am y cyfleusterau a'r bwyd ewch i dudalen we SFAFS: https://www.stratafloridatrust.org/join-the-dig
- Gan mai swydd hunangyflogedig yw hon, bydd angen i staff drefnu eu hyswiriant eu hunain.

**Camau nesaf:**

I wneud cais, anfonwch e-bost at Carys Aldous-Hughes (Cyfarwyddwr YYF), gan atodi CV llawn; dau ganolwr (nodwch a ydych chi'n hapus i ni gysylltu â nhw cyn y cyfweliad); a dim mwy nag un ochr o A4 yn disgrifio eich diddordeb yn y rôl.

Y dyddiad cau yw **hanner dydd, dydd Llun 16 Mawrth 2026**. Am fanylion pellach, cysylltwch â Carys Aldous-Hughes yn carys.aldous-hughes@stratafloridа.org.uk

Cynhelir cyfweliadau yn yr wythnos sy'n dechrau 23 Mawrth 2026 (dywedwch wrthym os byddwch chi'n cael hyn yn anodd).